

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# *Eich* canllaw i Raddio



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 03 | Chi a'ch seremoni |
| 04 | Cofrestru ar gyfer Graddio |
| 05 | Rhestr Wirio Graddio |
| 07 | Ar y diwrnod |
| 08 | Lleoliad |
| 09 | Gynau a Ffotograffiaeth Ede & Ravenscroft |
| 11-15 | Agenda |
| 16 | Gwybodaeth Gyswllt |


Gorau
meddiant
gwybodaeth

# Chi a’ch seremoni

Mae’r Brifysgol yn cynnal oddeutu 10 seremoni haf ym mis Gorffennaf a dau seremoni ym mis Tachwedd. Mae gan bob carfan o fyfyrwyr eu dyddiadau ac amserau penodol eu hunain o seremonïau.

Pennir dyddiad eich seremoni gan ganlyniad eich dyfarniad ac amser eich bwrdd arholi. Cynhelir y prif gyfnod graddio ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

Nid yw myfyrwyr yn cael dewis pa seremoni y dymunant ei mynychu oherwydd y niferoedd uchel o fyfyrwyr sy'n graddio ym mhob seremoni. Fodd bynnag, os na allwch fynychu eich seremoni Graddio oherwydd amgylchiadau lliniarol, cysylltwch â ni ar **graduation@cardiffmet**.

**Dyddiadau ac Amserau’r Seremonïau**

Cyhoeddir holl ddyddiadau ac amserau'r seremonïau ar ein tudalen we cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer Seremonïau'r Haf fe'u cyhoeddir fel arfer ym mis Rhagfyr y flwyddyn flaenorol.

**Sut fyddaf yn cael gwybod pryd mae fy seremoni?**

Bydd eich Cyfarwyddwr Rhaglen yn cadarnhau dyddiad/amser eich seremoni. Byddwn hefyd yn anfon e-bost atoch, ac yn cyhoeddi’r dyddiadau ar InSite, a bydd Uneb y Myfyrwyr hefyd yn cyhoeddi’r dyddiadau. Os ydych yn graddio eleni, nid oes rhaid i chi aros i glywed os ydych wedi pasio, i ddechrau, mae angen i ni wybod eich bod yn bwriadu mynychu.

*Roedd archebu fy lle i’r Graddio yn hawdd iawn; Gallwn ddiweddaru fy manylion hyd at y dyddiad cau”*



# Cofrestru ar gyfer Graddio

**Pethau pwysig y mae'n RHAID I CHI eu gwneud**

Rhaid i bob myfyriwr gofrestru eu bwriad i fynychu eu seremoni Graddio erbyn y dyddiadau cau penodol. Bydd y dyddiadau yn cael eu hanfon i fyfyrwyr yn yr e-bost yn gwahodd myfyrwyr i gofrestru ac ar gael ar y dudalen we Graddio.

**Sut i Gofrestru**

1. www.cardiffmet.ac.uk/graduation
   www.metcaerdydd.ac.uk/registry/graduation/Pages/

2. Pan fyddwch yn mewngofnodi, bydd dyddiad, amser a lleoliad eich seremoni wedi'u dyrannu i'ch cofnod a byddant yn ymddangos ar y sgrin.

3. Rhowch wybod i ni os oes gennych chi neu'ch gwestai broblemau symudedd neu bendro fel y gallwn sicrhau ein bod wedi neilltuo seddi addas ar eich cyfer.

4. Os oes gennych unrhyw broblemau gyda hyn, anfonwch e-bost at: graduation@cardiffmet.ac.uk ond gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi eich rhif myfyriwr neu ddyddiad geni.

5. Yn olaf, rhaid i fyfyrwyr archebu gŵn. Gallwch gael ad-daliad llawn hyd 10 diwrnod cyn i'r seremoni ddechrau.

# Rhestr Wirio'r Seremoni Raddio

- Cofrestrwch i fynychu: Rhaid i bob myfyriwr gofrestru ei fwriad i fynychu ei seremoni erbyn y dyddiad cau a bennir yn y gwahoddiad. Gallwch wneud hyn drwy lenwi'r ffurflen gofrestru ar eich porth myfyrwyr.

- Tocynnau gwesteion: (os oes angen) Mae'r Brifysgol yn gwarantu dau docyn gwestai am ddim i bob myfyriwr. Os ydych chi neu unrhyw un o'ch gwesteion yn anabl neu os oes angen seddau penodol arnoch am resymau iechyd, gallwch roi hyn ar y ffurflen gofrestru.

- Tocynnau ychwanegol: Gall myfyrwyr archebu tocynnau gwesteion ychwanegol am ddim (os oes rhai ar gael) drwy ddolen cyfrif Canolfan Mileniwm Cymru, a anfonir atynt o leiaf wythnos cyn y seremoni.

- Dyddiad ac Amser eich Seremoni: Mae'r dyddiad a'r amser ar gael ar eich tudalen gofrestru.

- Gwisg Academaidd: Rhaid llogi pob gŵn o Ede & Ravenscroft ar www.gownhire.co.uk o leiaf 21 diwrnod cyn y seremoni.

**Sut alla i gael mwy o docynnau?**
Os na allwn roi cymaint o docynnau i chi ag y gwnaethoch gais amdanynt, gallai eich gwesteion ychwanegol ddod gyda chi o hyd a gwylio'r seremoni ar y sgriniau teledu a fydd o amgylch y lleoliad a dathlu eich diwrnod arbennig gyda chi.

**Nid wyf am fod yn bresennol**
Os nad ydych yn cofrestru, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad ydych yn dymuno mynychu'r Graddio. Bydd eich dyfarniad yn cael ei roi yn eich absenoldeb.

**Sut ydw i'n cael llythyr fel y gallaf wneud cais am y fisa i'm gwesteion fynychu'r Graddio?**
Mae'n bwysig cwblhau eich cofrestriad mae cofrestru yn eich galluogi i archebu tocynnau a gallwch drefnu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer eich fisa.

*"Roedd gwneud cynlluniau gyda fy nheulu i ddod i'r Graddio yn bwysig iawn gan eu bod wedi fy nghefnogi drwy cryn gymaint..."*

**Pryd fydda i'n derbyn fy nhocynnau?**
Mae angen i ni aros i'r holl fyrddau arholi terfynol gael eu cynnal ar gyfer eich ysgol benodol. Os ydych chi wedi llwyddo yn eich rhaglen astudio ac wedi cofrestru i fynychu'r seremoni raddio, yna bydd tocynnau'n cael eu hanfon i chi o leiaf wythnos cyn eich seremoni.

**Sut ydw i'n cael fy nhocynnau?**
Bydd Canolfan Mileniwm Cymru yn anfon e-docynnau a chadarnhad archeb i'ch cyfeiriad e-bost Met Caerdydd neu'ch cyfeiriad e-bost personol. Gallwch ychwanegu'r e-docynnau at Waled Apple neu Waled Google os yw'n well gennych.

Bydd tocynnau myfyrwyr wedi'u lleoli yn y Seddi Isaf neu Ganol. Bydd gwesteion yn eistedd ar wahân i fyfyrwyr.

Byddwch hefyd yn derbyn ail e-bost a fydd yn cynnwys dolen i chi gael mynediad i'ch cyfrif gyda Chanolfan Mileniwm Cymru. Ar ôl i chi fewngofnodi, gallwch weld a rhannu eich e-docynnau yn Fy Nghyfrif, a bwcio unrhyw docynnau gwesteion ychwanegol sydd ar gael.

Os byddwch yn ail-anfon eich tocynnau, dim ond y set ddiweddaraf fydd yn ddilys. Gwnewch yn siŵr bod eich gwesteion yn gwybod hyn hefyd. Bydd y cyfrif yn cael ei ddileu gan Ganolfan Mileniwm Cymru ar ôl i chi raddio.

**Datrys Problemau**
Os nad yw eich tocynnau'n cyrraedd neu'n cael eu colli, yna gallwch fynd i wefan Canolfan y Mileniwm, nodwch eich cyfeiriad e-bost, cliciwch 'wedi anghofio eich cyfrinair' a chreu cyfrinair ar gyfer eich cyfrif.

Gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif i ail-anfon y tocyn(nau). Os oes angen i chi ail-anfon eich tocynnau gwnewch yn siŵr bod eich gwestai/ gwesteion yn gwybod bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf a anfonir.

**Gyda phwy ydw i'n cysylltu am help gyda fy nhocynnau?**
Os nad ydych wedi derbyn tocynnau, anfonwch e-bost at: graduation@cardiffmet.ac.uk
Os na ydych yn gallu cael mynediad i'ch cyfrif, gallwch anfon e-bost at: graduation@wmc.org.uk / graddio@wmc.org.uk a bydd tîm Canolfan Mileniwm Cymru yn gallu helpu.



*"Mae'r E-Docyn yn cyfrannu at ôl troed Cynaliadwy'r Brifysgol"*

## Ar y diwrnod

Gellir ychwanegu tocynnau at Waled Apple, Waled Google neu dangoswch nhw ar eich ffôn wrth y drws.

**Myfyrwyr Rhyngwladol a astudiodd dramor**
Os ydych wedi llwyddo i basio eich rhaglen astudio ac wedi cofrestru eich bwriad i fynychu'r graddio, yna byddwn wedi dyrannu tocynnau i chi.


Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrraedd cyn dechrau'r seremoni ac eich bod yn caniatáu digon o amser ar gyfer y seremoni gyfan.

# Lleoliad

**Canolfan Mileniwm Cymru**
**Plas Bute, Bae Caerdydd,**
**CF10 5AL**

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn falch o gynnal ei seremonïau graddio yn y lleoliad eiconig hwn. Rydym yn argymell bod pob myfyriwr a gwestai yn edrych ar dudalen we'r Ganolfan Mileniwm Cymru os oes ganddynt unrhyw gwestiynau.






Cymorth tocynnau/lleoliad Canolfan Mileniwm Cymru anfonwch e-bost at: graduation@wmc.org.uk / graddio@wmc.org.uk a bydd tîm Canolfan Mileniwm Cymru yn gallu eich cynorthwyo.

# Ede & Ravenscroft Gwisg a Ffotograffiaeth

Er mwyn graddio a chroesi'r llwyfan rhaid i BOB myfyriwr wisgo gŵn a hwd Met Caerdydd, y gellir eu llogi o Ede & Ravenscroft yn Gown Hire.

Sylwer os hoffech ddilyn yr opsiwn hwn, mae'r Brifysgol yn derbyn comisiwn bach gan y darparwr ar gyfer y gwasanaeth hwn. Defnyddir hyn i dalu am y lleoliad mawreddog ar gyfer y seremonïau graddio.

Rydym yn argymell bod pob myfyriwr yn archebu ei gŵn cyn y seremoni er bod opsiwn i'w logi ar y diwrnod. Gall myfyrwyr ganslo eu gŵn hyd at 10 diwrnod cyn y seremoni chael ad-daliad.

**Archebu lle ar-lein**

Y cwestiwn cyntaf y bydd yn ei ofyn i chi yw.

- "Enw'r Sefydliad" gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi Met Caerdydd.
- Yna cewch gyfle i ddewis y dyddiad yr ydych yn mynychu eich graddio
- Dewiswch y wobr rydych chi'n ei chael.

**Pa gŵn sydd ei angen arnaf?**

Os nad ydych yn siŵr pa gŵn y mae angen i chi ei logi yna: cliciwch yma.

Fe fydd arnoch chi angen:

- ☐ Gŵn
- ☐ Cwfwl
- ☐ Cap





**Cwfwl**

Mae ein holl israddedigion (BA/BSc) yn rhannu'r un dyluniad, ac mae graddau ôl-raddedig (MSc/MA) yn rhannu'r un dyluniad ond byddant yn wahanol i raddau israddedig.

**Sut ydw i'n mesur maint fy mhen?**

I fesur maint eich pen, os nad oes gennych fesur tâp yna defnyddiwch ddarn o linyn, rhowch y llinyn modfedd uwchben eich ael ac o amgylch eich pen.

Rhowch y llinyn yn erbyn pren mesur a bydd hynny'n rhoi maint eich pen mewn modfeddi.

**Pryd a ble ydw i'n casglu fy ngŵn?**

Byddwch yn casglu ac yn dychwelyd eich gŵn yn y lleoliad ar ddiwrnod y seremoni. **Gallwch gasglu ei gŵn ar gyfer seremonïau'r bore o 8yb ymlaen, ac o 11yb ar gyfer seremonïau'r prynhawn. Bydd angen dychwelyd pob gŵn erbyn yr amser a nodir.**

**Ffotograffiaeth**

Mae Ede & Ravenscroft yn cynnig amrywiaeth o becynnau ffotograffiaeth a gallwch archebu amser cyn y diwrnod neu ar y diwrnod. Sylwer os hoffech ddilyn yr opsiwn hwn, mae'r Brifysgol yn derbyn comisiwn bach gan y darparwr ar gyfer y gwasanaeth hwn. Defnyddir hyn i dalu am y lleoliad mawreddog ar gyfer y seremonïau graddio.

Llogi gŵn neu ffotograffiaeth - Gellir ateb **cwestiynau yma** neu drwy gysylltu ag Ede & Ravenscroft
E-bostiwch: student@edeandravenscroft.com
neu ffoniwch 01223 861 854 (cyfradd genedlaethol)

Bydd yr amserlenni canlynol yn rhoi syniad i chi o beth i'w ddisgwyl ar eich diwrnod Graddio. Gall amseroedd amrywio yn dibynnu ar amser dechrau eich seremoni.

## AGENDA AR GYFER 2 SEREMONI Y DYDD – SEREMONI 10yb

**(Dydd Mawrth, Dydd Mercher a Dydd Iau)**

| | |
|---|---|
| 8:00yb–8.30yb | Cyrraedd Canolfan Mileniwm Cymru<br>Ewch i logi'ch gŵn |
| Ar y ffordd: | Cael eich cyfarch gan staff Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n rhoi cerdyn llwyfan i chi<br>Casglu'ch gŵn |
| 8.30yb | Tynnu lluniau swyddogol gyda'ch Gwestei<br>Sicrhewch fod gan westeion docynnau sedd ar ffôn clyfar<br>*Mwynhau'r awyrgylch* |
| 9.15yb | Mae graddedigion yn gadael eu gwesteion ac yn mynd i mewn i awditoriwm i ddod o hyd i sedd. Gwnewch yn siŵr bod gennych eich cerdyn llwyfan |
| 9.25yb | Ymarfer |
| 9.45yb | Galw gwesteion i mewn<br>*Edrychwch am eich gwestai – Postio ar y cyfryngau cymdeithasol - Sgwrsio gyda chyfoedion* |
| 10.00yb | SEREMONI'N DECHRAU |
| 11:30/12.00 | DIWEDD Y SEREMONI<br>Gadael yr Awditoriwm<br>*Digonedd o gwtshys, hunluniau, cytuno i gadw mewn cysylltiad*<br>Cwrdd â gwesteion<br>*Mwy o Luniau – postiwch ar y cyfryngau cymdeithasol* |
| CINIO | Ble wnaethoch chi archebu? |
| 12.30yp-2.00yp | Dychwelwch eich gŵn |

## AGENDA AR GYFER 2 SEREMONI Y DYDD – SEREMONI 1.30yp

| | |
|---|---|
| 11.30yb | Cyrraedd Canolfan Mileniwm Cymru |
| | Ewch i logi'ch gŵn |
| Ar y ffordd: | Cael eich cyfarch gan staff Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n rhoi cerdyn llwyfan i chi |
| | Casglu'ch gŵn |
| 11.30yp-12.30yp | Tynnu lluniau swyddogol gyda'ch gwesteion |
| | Sicrhewch fod gan westeion docynnau sedd ar ffôn clyfar |
| | ***Mwynhau'r awyrgylch*** |
| 12.45yp | Mae graddedigion yn gadael eu gwesteion ac yn mynd i mewn i awditoriwm i ddod o hyd i sedd |
| 12.55yp | Ymarfer |
| 1.15yp | Galw'r gwesteion i mewn |
| | ***Edrychwch am eich gwestai – Postio ar y cyfryngau cymdeithasol - Sgwrsio gyda chyfoedion*** |
| 1.30yp | SEREMONI'N DECHRAU |
| 2:30/3.00yp | DIWEDD Y SEREMONI |
| | Gadael yr Awditoriwm |
| | ***Digonedd o gwtsys, hunluniau, cytuno i gadw mewn cysylltiad*** |
| | Cwrdd â gwesteion |
| | ***Mwy o Luniau – postiwch ar y cyfryngau cymdeithasol*** |
| | Cadwch lygad am eich tiwtoriaid - byddant yn cerdded o gwmpas |
| 3.30yp-4.00yp | Dychwelwch eich gŵn |
| | ***Parhau i Ddathlu!*** |

Mae gan y cerdyn llwyfan, eich enw a'ch cwrs arno, rhowch y cerdyn i'r Cyhoeddwr a fydd yn galw eich enw.

## AGENDA AR GYFER 3 SEREMONI Y DYDD – SEREMONI 10yb

**(Dydd Llun) 10yb, 1.30yp a 4yp**

| | |
|---|---|
| 8:00yb–8.30yb | Cyrraedd Canolfan Mileniwm Cymru |
| | Ewch i logi'ch gŵn |
| Ar y ffordd: | Cael eich cyfarch gan staff Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n rhoi cerdyn llwyfan i chi |
| | Casglu'ch gŵn |
| 8.30yb | Tynnu lluniau swyddogol gyda'ch gwesteion |
| | Sicrhewch fod gan westeion docynnau sedd ar ffôn clyfar |
| | *Mwynhau'r awyrgylch* |
| 9.15yb | Mae graddedigion yn gadael eu gwesteion ac yn mynd i mewn i awditoriwm i ddod o hyd i sedd |
| 9.25yb | Ymarfer |
| 9:45yb | Galw'r gwesteion i mewn |
| | *Edrychwch am eich gwestai – Postio ar y cyfryngau cymdeithasol - Sgwrsio gyda chyfoedion* |
| 10.00yb | SEREMONI'N DECHRAU |
| 11:30/12.00 | DIWEDD Y SEREMONI |
| | Gadael yr Awditoriwm |
| | *Digonedd o gwtsys, hunluniau, cytuno i gadw mewn cysylltiad* |
| | Cwrdd â gwesteion |
| | *Mwy o Luniau – postiwch ar y cyfryngau cymdeithasol* |
| | Cadwch lygad am eich tiwtoriaid - byddant yn cerdded o gwmpas |
| CINIO | Ble wnaethoch chi archebu? |
| 12.30yp-2.00yp | Dychwelwch eich gŵn |

## AGENDA AR GYFER 3 SEREMONI Y DYDD – SEREMONI 1.30yp

**(Dydd Llun) 10yb, 1.30yp a 4yp**

| | |
|---|---|
| 11.30yb | Tynnu lluniau swyddogol gyda'ch gwesteion |
| | Sicrhewch fod gan westeion docynnau sedd ar ffôn clyfar |
| | *Mwynhau'r awyrgylch* |
| 12.45yp | Mae graddedigion yn gadael eu gwesteion ac yn mynd i mewn i awditoriwm i ddod o hyd i sedd |
| 12.55yp | Ymarfer |
| 1:15yp | Galw'r gwesteion i mewn |
| | *Edrychwch am eich gwestai – Postio ar y cyfryngau cymdeithasol - Sgwrsio gyda chyfoedion* |
| 1.30yp | SEREMONI'N DECHRAU |
| 2:30yp/3yp | DIWEDD Y SEREMONI |
| | Gadael yr Awditoriwm |
| | *Digonedd o gwtsys, hunluniau, cytuno i gadw mewn cysylltiad* |
| | Cwrdd â gwesteion |
| | *Mwy o Luniau – postiwch ar y cyfryngau cymdeithasol* |
| | Cadwch lygad am eich tiwtoriaid - byddant yn cerdded o gwmpas |
| | *Dathlu gyda'ch ffrindiau a'ch teuluoedd* |
| 3.30yp-4.00yp | Dychwelwch eich gŵn |






## AGENDA AR GYFER 3 SEREMONI Y DYDD – SEREMONI 4.00yp

**(Dydd Llun) 10yb, 1.30yp a 4yp**

| | |
|---|---|
| 2.30yp | Tynnu lluniau swyddogol gyda'ch gwesteion |
| | Sicrhewch fod gan westeion docynnau sedd ar ffôn clyfar |
| | *Mwynhau'r awyrgylch* |
| 3.15yp | Mae graddedigion yn gadael eu gwesteion ac yn mynd i mewn i awditoriwm i ddod o hyd i sedd |
| 3.25yp | Ymarfer |
| 3:45yp | Galw'r gwesteion i mewn |
| | *Edrychwch am eich gwestai – Postio ar y cyfryngau cymdeithasol - Sgwrsio gyda chyfoedion* |
| 4.00yp | SEREMONI'N DECHRAU |
| 5:00/5.30yp | DIWEDD Y SEREMONI |
| | Gadael yr Awditoriwm |
| | *Digonedd o gwtsys, hunluniau, cytuno i gadw mewn cysylltiad* |
| | Cwrdd â gwesteion |
| | *Mwy o Luniau – postiwch ar y cyfryngau cymdeithasol* |
| | Cadwch lygad am eich tiwtoriaid - byddant yn cerdded o gwmpas |
| 5.30yp-6.00yp | Dychwelwch eich gŵn |







Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## Gwybodaeth Gyswllt

Cynghorir myfyrwyr i wirio bod eu cyfeiriadau e-bost a'u cyfeiriad parhaol yn cael eu diweddaru ar eu porth myfyrwyr ar adeg cofrestru ar gyfer Graddio.

Mae gwybodaeth am Raddio ar gael ar ein **tudalen we** neu anfonwch e-bost atom yn graduation@cardiffmet.ac.uk